

# Pecyn Addysg

Gwarchodfa Natur Genedlaethol

# Cwm Idwal

Cynhyrchwyd gan
Bartneriaeth Cwm Idwal
a'r Field Studies Council (Cyngor Astudiaethau Maes)

Ymddiriedolaeth Genedlaethol
National Trust

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Parc Cenedlaethol Eryri
Snowdonia National Park

FSC

www.cwmidwal.cymru



# Cynnwys

**Adran 1: Cynllunio Eich Ymweliad........................3**
Cyflwyniad ........................................................ 4
Y dosbarth awyr agored ...................................... 4
Pwy all helpu i drefnu eich ymweliad ................ 5
Gwybodaeth cefndirol ar Cyfoeth Naturiol Cymru, Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol a Parc Cenedlaethol Eryri........................................ 6
Sut mae Cwm Idwal yn cael ei warchod? ......... 7
Partneriaeth Cwm Idwal...................................... 8
Taith Cwm Idwal .................................................. 9
Pryd i ymweld ....................................................10
Cyrraedd yma ....................................................10
Cyfleuserau .......................................................10
Beth i'w wisgo ...................................................10
Costau................................................................10
Ymweliad paratoadol ..........................................11
Iechyd a diogelwch .............................................11
Cymorth cyntaf ....................................................11
Gwybodaeth peryglon.........................................11
Beth i'w wneud mewn argyfwng ........................11

**Adran 2: Gweithgareddau Addysgol ac adnoddau .12**
Y Field Studies Council ...................................... 13
Beth sydd yn gwneud dysgu awyr agored da?.. 13
Cynllunio ar gyfer dysgu yn yr awyr agored... 14
Tabl crynhoi o weithgareddau addysgol......... 15

**LAWRLWYTHO O EIN GWEFAN:**
**Gweithgareddau ac adnoddau**
Drama ddaearyddol
Map llun
Cardiau gwrthdaro
Bingo rhewlifiant
Stribyn comig Darwin
Cyfeiriannu rhigolau
Mapio geomorffolegol



Adran 1:

# Cynllunio Eich Ymweliad

Adran 1:

# Cynllunio Eich Ymweliad

## CYFLWYNIAD

**Mae'r pecyn addysg hwn wedi ei gynhyrchu i helpu athrawon ac arweinwyr grŵp i gynllunio ymweliad addysgol ac ysbrydoledig i Warchodfa Natur Genedlaethol Cwm Idwal.**

Mae'n darparu gwybodaeth ymarferol i helpu cynllunio'r ymweliad (lleoliad, cyfleusterau, manylion cyswllt ac ati) a rhai gweithgareddau addysgol y gellir eu cyflawni fel gwaith maes, ynghyd ag awgrymiadau ar gyfer sesiynau dosbarth cyn ac ar ôl eich ymweliad.

*Bwriad y pecyn yma yw bod yn bwynt dechreuol i'r rheini sydd yn arwain grwpiau, er mwyn helpu i ddatblygu eu dulliau a gweithgareddau eu hunain yn benodol ar gyfer anghenion a diddordeb eu grŵp.*

MAE MWY O WYBODAETH I'W GAEL AR EIN GWEFAN:
**WWW.CWMIDWAL.CYMRU**

## Y DOSBARTH AWYR AGORED

Cwm Idwal ydi'r Warchodfa Natur Genedlaethol hynaf yng Nghymru, a chafodd ei ddynodi ym 1954 er mwyn helpu i ddiogelu ei nodweddion arbennig. Mae'n cael ei ystyried fel 'dosbarth awyr agored' gwych gyda nifer o nodweddion diddorol i edrych arnynt a'u hastudio, pob un yn berthnasol i nifer o wahanol adrannau o'r cwricwlwm. Ynghyd â'r dirwedd ddramatig mae'n ei wneud yn le atyniadol ac ysbrydoledig i ddysgu. Mae dysgu yn natur hefyd yn cynnig nifer o fuddion iechyd a llesiant, yn helpu i ddysgwyr deimlo yn hapusach, yn fwy iach a gyda mwy o frwdfrydedd i ddysgu.

Mae rhai o'r prif bynciau y daw grwpiau yma i astudio yn cynnwys:

### DAEAREG A GEOMORFFOLEG:

Mae Cwm Idwal yn enwog am ei ddaeareg unigryw a diddorol gyda digonedd o dystiolaeth o rewlifiant ac felly'n lle gwych i astudio sut y cafodd y mynyddoedd eu creu.

### RHYWOGAETHAU PRIN:

Mae Gwarchodfa Natur Cwm Idwal yn gartref i amrywiaeth o blanhigion Arctig Alpaidd prin ac arbenigol, fel y Tormaen Porffor, Derig, a Lili'r Wyddfa. Os byddwch yn lwcus, efallai y gwelwch rhai adar ucheldir prin fel Mwyalchen y Mynydd neu Linos y Mynydd. Ond mae yna ddigonedd o adar eraill y gall ymwelwyr eu gweld; Cigfran, Bronwen y Dŵr, a'r Siglen i enwi ond ychydig.

### OLYNIAETH NATURIOL A RHEOLAETH TIR:

Mae prosiect hirdymor sydd yn astudio'r effaith y gall gwahardd anifeiliaid sy'n pori ei gael ar lystyfiant yn gwneud Cwm Idwal yn le gwych i astudio olyniaeth naturiol. Gall hyn hefyd gynorthwyo trafodaeth ar sut yr ydym yn rheoli tir a chydbwyso gwahanol anghenion mewn cymdeithas (cynhyrchu bwyd, hamdden, bioamrywiaeth ac ati)

### TWRISTIAETH A HAMDDEN:

Mae Cwm Idwal yn ardal boblogaidd iawn ymysg ymwelwyr, sydd yn ei wneud yn le da i astudio effaith twristiaeth a sut mae'r cyrff cadwraethol amrywiol yn cydweithio i reoli effaith pobl ar dirwedd a chynefinoedd.

# Adran 1: Ymweld â GNG Cwm Idwal

**Mae Gwarchodfa Natur Genedlaethol Cwm Idwal yn ymestyn dros ardal o 398ha (983 acer) a'r uchder yn amrywio o 373m i 1001m uwchben y môr gan gynnwys tir mynyddig caled. Fodd bynnag, er ei fod yn lleoliad mynyddig dramatig, mae'n bosib ymweld â'r warchodfa yn gymharol ddiogel gyda grŵp drwy ddilyn llwybr carreg i fyny ac o amgylch Llyn Idwal.**

**Caniatewch o leiaf 3 awr i wneud hyn gyda grŵp, mwy os ydych am wneud rhai o'r gweithgareddau a awgrymir.**

## PWY ALL HELPU I DREFNU EICH YMWELIAD

Mae Swyddog Partneriaeth Cwm Idwal wedi ei leoli yn y ganolfan ymwelwyr ar ddechrau'r llwybr i Gwm Idwal. Bydd yn medru helpu drwy roi cyngor i gynllunio eich ymweliad a gallwch wneud trefniant (dibynnol ar argaeledd) iddynt gyfarfod eich grŵp a rhoi cyflwyniad ar y Warchodfa.

**SWYDDOG PARTNERIAETH CWM IDWAL**
Canolfan Cwm Idwal
Nant Ffrancon
Bethesda
Gwynedd
LL57 3LZ

01248 605535

CROESO@CWMIDWAL.CYMRU



Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

## CYFOETH NATURIOL CYMRU:

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gorff wedi ei noddi gan Lywodraeth Cymru gyda phwrpas i sicrhau rheolaeth gynaliadwy o adnoddau naturiol Cymru ym mhob rhan o'i waith. Golygai hynny ofalu am yr aer, y tir, dŵr, bywyd gwyllt planhigion a phriddoedd i wella llesiant Cymru a darparu dyfodol gwell i bawb.

Maent yn gyfrifol am gynnal rheoliadau amgylcheddol amrywiol sy'n ymwneud â dŵr a defnydd tir, ymateb i argyfyngau amgylcheddol fel llifogydd, monitro cyflwr ein hamgylchedd a rhoi trwyddedau i rai gweithgareddau gael eu cynnal.

Maent hefyd yn gyfrifol am ddynodi a monitro ein rhwydwaith o ardaloedd gwarchodedig yn cynnwys Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) a Gwarchodfeydd Natur Genedlaethol (GNG).

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn rheoli 56 o Warchodfeydd Natur Genedlaethol Cymru unai eu hunain, neu mewn partneriaeth fel sy'n digwydd yma yng Nghwm Idwal.

## YR YMDDIRIEDOLAETH GENEDLAETHOL:

Elusen yw'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol a sefydlwyd yn 1895 i gynnal a gwarchod ardaloedd o ddiddordeb hanesyddol ag harddwch naturiol ar gyfer pawb am byth.

Heddiw, maent yn berchen ac yn gofalu am dros 250,000ha o dir ffermio, 780 milltir o arfordir a dros 500 o eiddo hanesyddol, gerddi a gwarchodfeydd natur ar draws Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Maent yn cael eu cefnogi gan 5.6 miliwn o aelodau ac yn dibynnu ar gymorth gan dros 65,000 o wirfoddolwyr.

Mae Cwm Idwal yn rhan o stad Carneddau a Glyderau'r Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol sy'n cynnwys mynyddoedd uchel, llynnoedd, afonydd a ffermydd mynydd traddodiadol.

## PARC CENEDLAETHOL ERYRI

Yn ymestyn dros gyfanswm o 823 milltir sgwâr, Eryri yw Parc Cenedlaethol mwyaf Cymru. Yn gartref i dros 26,000 o bobl, mae tirwedd Eryri yn frith o ddiwylliant, hanes a threftadaeth, lle mae'r Gymraeg yn rhan o wead dydd i ddydd yr ardal.

Mae gwaith Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn delio ag ystod eang o faterion o'r maes cynllunio a datblygu i feysydd cadwraeth, coedwigaeth ac amaeth. Yr Awdurdod yw'r prif gorff cyhoeddus sy'n gyfrifol am y Parc Cenedlaethol ac mae ganddo bwrpasau statudol sydd rhaid ei gyflawni, rhain yw:

- Gwarchod a gwella harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol
- Hyrwyddo cyfleoedd i'r cyhoedd ddeall a mwynhau rhinweddau arbennig y Parciau Cenedlaethol

Wrth gyflawni'r dibenion hyn, mae'n ofynnol hefyd i Awdurdodau Parciau Cenedlaethol geisio meithrin lles economaidd a chymdeithasol cymunedau lleol yn y Parc Cenedlaethol.

# Adran 1: Ymweld â GNG Cwm Idwal

## SUT MAE CWM IDWAL YN CAEL EI WARCHOD?

**Mae Cwm Idwal ymhlith un o'r safleoedd sydd wedi eu gwarchod fwyaf yng Nghymru gyda nifer o ddynodiadau yn gwarchod y safle arbennig hwn. Dyma'r dynodiadau sy'n gwarchod Cwm Idwal, eu pwrpas a pwy sy'n gyfrifol amdanynt.**

### GWARCHODFA NATUR GENEDLAETHOL (GNG)

Sefydlwyd Gwarchodfeydd Natur Genedlaethol i warchod ac i ganiatáu pobl i astudio eu bywyd gwyllt, cynefinoedd a nodweddion daearegol o ddiddordeb arbennig. Cwm Idwal oedd Gwarchodfa Natur Genedlaethol gyntaf Cymru a gafodd ei sefydlu yn 1954 oherwydd ei ddaeareg unigryw a'r planhigion prin sydd yn gysylltiedig â'r ddaeareg honno. Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) sy'n dewis a dynodi Gwarchodfeydd Natur Genedlaethol yng Nghymru o dan y ddeddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949 neu o dan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981. Mae'r rhan fwyaf o GNG Cymru yn cael eu rheoli gan CNC, gan elusennau fel yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, gan awdurdodau lleol, neu mewn partneriaeth fel yng Nghwm Idwal.

### SAFLE O DDIDDORDEB GWYDDONOL ARBENNIG (SODDGA)

Ddynodiad cadwraethol sydd â'r nod o warchod ardal gyda nodweddion penodol. Gall y nodweddion yma fod yn blanhigion ac anifeiliaid neu hyd yn nodweddion ffisiolegol neu ddaearegol. Mae'r dynodiad yn caniatáu'r nodweddion gael eu gwarchod yn gyfreithiol gan ei gwneud yn anghyfreithlon i'w difrodi'n fwriadol. Yng Nghymru, maent yn cael eu rheoli a'u dynodi gan Gyfoeth Naturiol Cymru.

### ARDAL CADWRAETH ARBENNIG (ACA)

Ddynodiad sy'n anelu at warchod ardaloedd o bwysigrwydd rhyngwladol. Cafwyd eu dynodi o dan y Gyfarwyddeb Cynefinoedd yr Undeb Ewropeaidd. Yng Nghymru, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gyfrifol am reoli'r ACAau.

### SAFLE RAMSAR

Dynodiad ar gyfer safleoedd gwlypdiroedd sydd yn rhyngwladol bwysig. Mae Llyn Idwal yn un o 10 safle Ramsar yng Nghymru. Mae'n esiampl wych o lyn uwchdir oligotroffig (lefel maeth isel) ac yn cynnwys rhai rhywogaethau prin sydd yn byw dan amodau o'r fath.

### PARC CENEDLAETHOL

1. I warchod a gwella harddwch naturiol. Bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol
2. Hyrwyddo cyfleoedd i'r cyhoedd ddeall a mwynhau rhinweddau arbennig y Parciau Cenedlaethol.
3. Wrth gyflawni'r dibenion hyn, mae'n ofynnol hefyd i Awdurdodau Parciau Cenedlaethol geisio meithrin lles economaidd a chymdeithasol cymunedau lleol yn y Parc Cenedlaethol. Parc Cenedlaethol Eryri efadu yw'r awdurdod cynllunio statudol yn yr ardal.

# Adran 1: Ymweld â GNG Cwm Idwal

Gwarchodfa
Natur Genedlaethol
**Cwm Idwal**

## PARTNERIAETH CWM IDWAL

Heddiw mae Cwm Idwal yn cael ei warchod mewn Partneriaeth rhwng Cyfoeth Naturiol Cymru, Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol a Pharc Cenedlaethol Eryri. Ffurfiwyd y bartneriaeth yn 2010 i alluogi'r tri sefydliad sydd yn rheoli Cwm Idwal i gydweithio'n agosach er mwyn diogelu, gofalu a rhannu rhinweddau arbennig y Warchodfa Natur Genedlaethol.

Mae'r Bartneriaeth yn cyflogi swyddog sydd wedi ei leoli yn y ganolfan ymwelwyr ac yn gweithio'n agos gydag ysgolion, prifysgolion, canolfannau awyr agored, gwirfoddolwyr a grwpiau cymunedol er mwyn iddynt wneud y mwyaf o'r Warchodfa ar gyfer hamdden, addysg a lles.

## GWAITH Y BARTNERIAETH

### GWAITH LLWYBRAU

I reoli'r nifer fawr o bobl sy'n troedio i Gwm Idwal bob blwyddyn mae'r bartneriaeth yn cynnal a chadw'r llwybrau yn y warchodfa natur. Mae llwybrau effeithiol yn helpu i warchod safleoedd fel Cwm Idwal mewn sawl ffurf. Mae llwybrau efo wyneb gerrig iddynt yn gallu goroesi'r pwysau gerdded mawr a glaw trwm yma yng Nghwm Idwal. Maent hefyd yn gweddu'r dirwedd ac yn atyniadol i gerddwyr - mae'r rhan fwyaf yn aros ar y llwybrau sy'n golygu fod effaith erydiad yn cael ei leihau. Yn ogystal, mae llwybrau da yn gallu cael eu defnyddio i lywio traffig pobl i ffwrdd o safleoedd mwyaf bregus y warchodfa.

### RHEOLI PORI

Ers 1998 mae pori defaid a gwartheg wedi ei wahardd o Gwm Idwal fel rhan o arbrawf hir dymor i arsylwi ar olyniaeth naturiol. Mae'r safle yn rhy fawr i godi ffens o'i amgylch, felly mae defaid yn naturiol yn crwydro draw o ffermydd cyfagos. I reoli hyn mae'r Bartneriaeth yn cyflogi bugeiliaid i wrthio'r defaid yn ôl i'w ffermydd. Mae effaith yr atal pori i'w weld wrth gymharu'r llystyfiant naill ochr i'r wal sy'n rhedeg i'r llyn. Sefydlwyd plotiau atal pori llai yn yr 1970au, gellir gweld amrywiaeth dda o blanhigion yn cynnwys coed yn tyfu yn y plotiau yma, ac maent yn cynnig awgrym o sut fydd rhannau o'r cwm yn edrych yn y dyfodol.

Gallwch ddarganfod mwy am reolaeth Cwm Idwal yma:
**CWMIDWAL.CYMRU/RHEOLIR-WARCHODFA/**

### ADDYSG

Rhan bwysig o waith y Bartneriaeth yw darparu gwybodaeth a chyfleoedd i ddysgu am y Warchodfa Natur. Mae hyn yn cynnwys cynnal y ganolfan ymwelwyr, gwefan a deunydd dehongli. Mae swyddog hefyd ar gael sy'n arwain teithiau a darparu sgyrsiau am y Warchodfa Natur Genedlaethol. Mae hyn yn helpu i bobl ddysgu am Gwm Idwal a hefyd, yn ei dro, i warchod Cwm Idwal.

### MESURYDDION TYMHEREDD

Esiampl arloesol o waith y Bartneriaeth yw gwarchod rhag difrod anfwriadol i blanhigion Arcitg-Alpaidd prin gan ddringo rhew mewn amodau amhriodol. Yn ystod y gaeaf, os yw'r tymheredd yn rhy gynnes, gall cyfarpar dringo rhew ddifrodi planhigion sy'n tyfu mewn tywyrch sydd heb rewi. Mae mesuryddion wedi eu lleoli ar y clogwyni dringo yn darlledu data tymheredd byw i'r ganolfan ymwelwyr ac ar y we, lle y gall ddringwyr weld os yw'r clogwyni mewn amodau priodol ar gyfer dringo rhew neu beidio cyn iddynt fentro allan.

Gellir gweld y data tymheredd byw yma:
**WWW.THEBMC.CO.UK/IDWAL**


# Adran 1: Taith Cwm Idwal

**DECHRAU/ DIWEDD:**
Canolfan Cwm Idwal
(SH 6493 6035)
**MAP OS PERTHNASOL**
OS Explorer OL17
(Yr Wyddfa a Dyffryn Conwy)

**PELLTER:** 4km / 2.5 milltir
**AMSER:** 1-2 awr
**ESGYNIAD:** 125m
**NATUR LAFURUS:** 3
**CYFEIRIANNU:** 2
**NATUR DECHNEGOL:** 2

**TIR:** Llwybr carreg amlwg ar y rhan fwyaf o'r daith gydag allt gymedrol i'r llyn yna'n wastad gan fwyaf. Gall rhai rhannau fod yn llithrig mewn amodau gwlyb neu rewllyd.

1. O Ganolfan Cwm Idwal (SH 6493 6035), dilynwch y grisiau i lwybr carreg a pharhau ymlaen gan anwybyddu'r llwybr ar y dde.
2. Ewch drwy'r giât fetel, dros y bont bren a pharhau ar hyd y llwybr llydan gan anwybyddu unrhyw lwybrau llai.
3. Arhoswch ar y llwybr llydan am 750m nes y cyrhaeddwch glan y llyn.
4. Oddi yma, ewch i'r chwith i ddilyn y llwybr gyda'r cloc (mae'n bosib mynd yn erbyn y cloc hefyd) o amgylch y llyn.
5. Ar ben pellaf y llyn, cyn Rhiwiau Caws (clogwyni mawr), mae llwybr i'r dde fydd yn eich arwain ar draws ardal weiriog cyn dod yn ôl at y llwybr, yna gwyrwch i'r dde i barhau o amgylch y llyn.
6. Cymrwch hoe ar lan y llyn i dynnu ychydig o luniau a chael cystadleuaeth sgimio cerrig. Mae Llyn Idwal yn gynefin i gasgliad sensitif o blanhigion sy'n hoff o lefel isel y maeth yn nŵr y llyn. Mae'r llyn wedi ei warchod yn rhyngwladol o dan gonfensiwn RAMSAR.
7. Parhewch i gerdded ar hyd glan y llyn i ddod yn ôl at y llwybr, ewch drwy'r giât a chroesi'r bont lechi i gwblhau'r gylchdaith.
8. Trowch i'r chwith ar hyd y llwybr llydan yn ôl i Fwthyn Ogwen.



# Adran 1: Ymweld â GNG Cwm Idwal

## PRYD I YMWELD

Yn gyffredinol, gwanwyn, haf neu hydref ydi'r amseroedd gorau i ymweld er gall gwyliau'r haf (Gorffennaf ac Awst) fod yn brysur iawn gydag ymwelwyr eraill. Gyda hyn mewn golwg, mae'r rhan fwyaf o grwpiau addysgol yn tueddu i ymweld yn ystod Mai, Mehefin a Medi. Mae'r Warchodfa ar agor drwy'r flwyddyn ond gall misoedd y gaeaf ddod ac amodau tywydd heriol yn cynnwys gwyntoedd cryf, glaw, eira a rhew. Oherwydd y rhesymau hyn, dylech ganiatáu ychydig o hyblygrwydd wrth gynllunio eich ymweliad yn y gaeaf i sicrhau eich bod yn cael y mwyaf o'ch ymweliad a bod eich grŵp yn ddiogel ac yn teimlo'n gyfforddus. Dylech wirio rhagolygon y tywydd o flaen llaw a bod yn barod i ohirio/ canslo'r ymweliad os bydd angen.

## CYRRAEDD YMA

Mae Gwarchodfa Natur Cwm Idwal yn hawdd i'w gyrraedd gyda bws, bws mini neu gar. Mae'r ganolfan ymwelwyr a maes parcio wedi eu lleoli ar ffordd yr A5 rhwng Bethesda (4 milltir) a Chapel Curig (5 milltir).

## LLEOLIAD

Cod Post: LL57 3LZ
Cyfeirnod Grid (canolfan ymwelwyr): SH649 603
Gallwch gyrraedd Cwm Idwal gan ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus drwy fws T10 gwasanaeth Traws Cymru (Bangor-Corwen)
**WWW.TRAVELINE.CYMRU**
Mae bws trydan lleol hefyd yn cael ei redeg gan Fws Ogwen sy'n darparu gwasanaeth bws gwennol o Fethesda yn ystod misoedd yr haf. Cysylltwch â Swyddog Partneriaeth Cwm Idwal am ragor o wybodaeth am drafnidiaeth gyhoeddus.

## CYFLEUSTERAU

Mae maes parcio talu ac arddangos wrth y ganolfan ymwelwyr (addas ar gyfer ceir a bysiau mini).
Culfannau ar yr A5 (ar gyfer bysiau a pharcio ychwanegol).
Canolfan ymwelwyr gydag ystafell ddehongli a chysgod - ar agor yn ddyddiol yn ystod oriau swyddfa.
Wi-Fi cyhoeddus am ddim.
Toiledau- ar agor 24 awr bob dydd.
Caffi Ogwen- ar agor drwy'r flwyddyn (ar wahan i ddyddiau'r wythnos ym mis Ionawr). Darparu byrbrydau (pastai, rholiau selsig), siocled, diodydd oer a poeth, hufen ia, mapiau, hetiau ac ati.

Noder: Mae parcio yn broblem yn yr ardal ac yn cael ei adolygu ar hyn o bryd, felly gall y trefniadau cyfredol newid. Os ydych yn ansicr, cysylltwch â Swyddog Partneriaeth Cwm Idwal i gael y wybodaeth ddiweddaraf.

## BETH I'W WISGO

Gall y tywydd newid yn sydyn yng Nghwm Idwal ac mae'n angenrheidiol bod pawb yn eich grŵp gyda'r cyfarpar cywir. Wrth gwrs, dylech wastad wirio rhagolygon y tywydd o flaen llaw, ond byddwch yn barod iddo newid. Dylai pob aelod o'ch grŵp ddod â:

- Dillad cynnes, yn cynnwys cot dda (nifer o haenau!)
- Dillad dal dŵr
- Esgidiau cadarn
- Het (het gynnes neu het haul, dibynnol ar yr amser o'r flwyddyn) a menig.
- Sach gefn
- Bocs bwyd
- Potel ddŵr.
- Eli haul

Yn ychwanegol i hyn, dylai arweinydd y grŵp ddod â:

- Map a chwmpawd a GPS os oes gennych chi un
- Pecyn cymorth cyntaf
- Lloches i grŵp mewn argyfwng
- Rhestr o aelodau'r grŵp, gan gynnwys manylion cyswllt mewn argyfwng
- Ffôn symudol
- Fflach lamp
- Chwiban

*** MAE RHAGOR O WYBODAETH I'W GAEL AR WEFAN ADVENTURESMART.UK**

## COSTAU

Nid oes tâl i ymweld â'r Warchodfa Natur, y mynyddoedd o'i hamgylch nag i ddefnyddio'r ganolfan ymwelwyr. Fodd bynnag, byddwch angen ystyried costau fel trafnidiaeth a pharcio wrth gynllunio eich taith.

# Adran 1: Ymweld â Chwm Idwal

## YMWELIAD PARATOADOL

Byddai ymweld â'r safle cyn eich taith yn fuddiol iawn a bydd yn eich helpu i baratoi'n drylwyr. Bydd ymweliad cyn eich taith yn ddefnyddiol i ysgrifennu asesiadau risg, gwirio cyfleusterau, dod i adnabod eich ffordd o gwmpas a chynllunio eich gweithgareddau.

## IECHYD A DIOGELWCH

Mae'n ofyniad cyfreithiol yn y rhan fwyaf o sefyllfaoedd dysgu awyr agored fod proses o asesiad risg wedi digwydd. Dylech wirio'r gofynion a chanllawiau gyda'ch ysgol neu awdurdod lleol.

WALESCOUNCILFOROUTDOORLEARNING.ORG

OEAPNG.INFO

EVOLVEADVICE.CO.UK

**Agwedd Cytbwys - Yn unol â'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch**

Wrth gynllunio a darparu profiadau a chyfleoedd dysgu, nid i ddiddymu'r risg yn gyfan gwbl yw'r nod, ond i bwyso a mesur y risg a'r buddion ac i weithredu yn gyfatebol.
Gallwch gynnwys trafodaeth am y risgiau, y buddion a sut i fod yn ddiogel yn y mynyddoedd fel rhan o'ch ymweliad.

## CYMORTH CYNTAF

Argymhellir yn gryf bod o leiaf un o arweinwyr y grŵp gyda thystysgrif Cymorth Cyntaf ddilys a dylai pob oedolyn yn eich grŵp wybod sut i gysylltu â'r gwasanaethau brys.
Dylech sicrhau fod gennych:

- Pecyn Cymorth Cyntaf wedi ei stocio'n addas, sydd i law drwy'r amser.
- Person wedi ei benodi i fod yn gyfrifol am ddigwyddiadau cymorth cyntaf.
- Rhestr gyswllt mewn argyfwng

Bydd gan eich ysgol neu awdurdod lleol weithdrefn argyfwng safonol a dylai'r rhain gael eu dilyn pe byddai argyfwng yn digwydd.

## GWYBODAETH PERYGLON

Cyfrifoldeb yr athro ac arweinydd grŵp yw cwblhau asesiad risg cyn ymweliad addysgu awyr agored. Mae'r rhestr o beryglon posib yma yn gyffredinol a dylent fod fel man cychwyn i ysgrifennu asesiad risg penodol ar gyfer eich ymweliad.

Peryglon posib yng Ngwm Idwal

- Traffig ar y ffordd ac yn y maes parcio
- Wyneb llwybr anwastad a chreigiog.
- Clogwyni a thir serth
- Arwynebau gwlyb a llithrig
- Eira a rhew
- Afon- dŵr sy'n symud a llethrau serth
- Llyn- dŵr dwfn a llethrau serth
- Ymwelwyr eraill- cerddwyr, cŵn ac ati.
- Anifeiliaid- gwartheg, ceffylau a defaid yn pori ar ochrau'r llwybr
- Perygl o ddal heintiau o ficro organeb pridd/ dŵr
- Perygl o fynd ar goll/ gwahanu oddi wrth y grŵp
- Brathiad/ pigiad gan bryfaid
- Clefyd Lyme/ Trogod
- Gatiau/ camfeydd/ ffensys (yn cynnwys weiren bigog)
- Tywydd eithafol/ cyfnewidiol


## BETH I'W WNEUD MEWN ARGYFWNG

Os ydych angen cymorth ac yn medru dychwelyd i'r ganolfan ymwelwyr, byddant yn gallu galw'r gwasanaethau brys perthnasol (Ambiwlans, Heddlu, Tân) drwy ffonio 999. Os nad ydych yn medru dychwelyd i'r ganolfan ac angen cymorth brys ar y mynydd dylech gysylltu â'r Heddlu drwy ffonio 999 ac yna gofyn am Achub Mynydd. Dylech roi'r wybodaeth ganlynol:

**EICH ENW**
**MANYLION CYSWLLT**
**MANYLION YR ANAFEDIG/ DIGWYDDIAD**
**EICH LLEOLIAD- BYDDWCH YN FANWL A RHOWCH GYFEIRNOD GRID OS YN BOSIB**

Mae signal ffôn symudol yn anghyson yn y Warchodfa, gellir cael y signal gorau yng ngogledd y llyn wrth ymyl yr olygfan sydd yn edrych lawr am Nant Ffrancon (SH 646 602). Fel arall, gallwch anfon rhywun i'r ganolfan ymwelwyr i chwilio am gymorth.

**2021.ADVENTURESMART.UK/CY/GWYBOD-SUT-A-PHRYD-I-ALW-AM-HELP/**



Adran 2:

# Gweithgareddau Addysgol

Adran 2:

# Gweithgareddau Addysgol

## FIELD STUDIES COUNCIL

Cafodd y gweithgareddau yn yr adran hon, ynghyd â'r adnoddau amgaeedig eu datblygu gan y Field Studies Council. Mae'r Field Studies Council yn elusen addysgol sydd yn darparu addysg o safon uchel ac yn rhoi profiad ymarferol yn yr awyr agored. Eu bwriad yw cael pobl i gysylltu â natur, hyrwyddo cynaliadwyedd a gwella lles. Mae ganddynt 20 canolfan ar draws Prydain, yn cynnwys Rhyd y Creuau ger Betws y Coed. Os hoffech gael Tiwtor Maes cymwysedig gynnal eich ymweliad addysgol i Gwm Idwal, cysylltwch â'r Field Studies Council. Am fwy o wybodaeth ewch i

**WWW.FIELD-STUDIES-COUNCIL.ORG**

## BETH SYDD YN GWNEUD ADDYSG AWYR AGORED DA

Mae profiadau addysgol awyr agored da fel arfer yn cynnwys elfennau o ddarganfod, cyfleoedd i gysylltu gyda byd natur, adeiladu parch i'r amgylchedd naturiol, gwella gwytnwch a lles a gall (ond ddim bob tro) gynnwys amgylchiadau heriol neu weithgaredd corfforol.

Am ragor o wybodaeth gwelwch y ddogfen Dysgu Awyr Agored o Ansawdd Rhagorol i Gymru

**CYNGOR CYMRU AR GYFER DYSGU YR AWYR AGORED**

Mae'r canllaw yn amlinellu'n glir fuddiannau dysgu ac addysgu yn yr amgylchedd naturiol, ac wedi ei lunio i'ch helpu chi i werthuso a mynd ati i wella, neu wella ymhellach, safon addysg yn yr awyr agored. I gefnogi hyn, penderfynwyd ar ddeg canlyniad i ddysgu yn yr awyr agored, a chyfres o ddangosyddion ar gyfer pob un.

## CYNLLUNIO AR GYFER DYSGU YN YR AWYR AGORED

Mae cymaint o fuddion i ddysgu yn yr awyr agored, felly bydd cael cefnogaeth uwch-arweinwyr yn gynnar yn help i wneud eich gweledigaeth yn realiti a helpu cynnal ymweliad llyfn. Fel dysgu yn yr ystafell ddosbarth, gall oerni, bod eisiau bwyd neu bethau sy'n tynnu sylw rwystro canlyniadau dysgu da. Gall cynllunio ar gyfer hyn wella effeithiolrwydd eich sesiwn yn fawr.

Yn ogystal â darparu cynnwys cwricwlwm a gwybodaeth, mae dysgu awyr agored yn darparu nifer o gyfleoedd i gynnwys themâu traws-gwricwlar (e.e. dinasyddiaeth (Prydeinig/ Cymraeg/ byd-eang), ac ati).

Mae cynnal gwersi yn y dosbarth awyr agored hefyd yn darparu heriau personol a chyfleoedd datblygu i bobl ifanc e.e. ehangu gorwelion drwy brofiadau newydd, gwaith tîm, datrys problemau, adeiladu gwytnwch, magu hyder, cynyddu cymhelliant, cyfathrebu a sgiliau cymdeithasol.

Fel unrhyw arweinydd yn yr awyr agored, mae'n hanfodol bwysig i gofio i gynnwys amser i adlewyrchu.

## AR Y LLEIAF:

### BETH AETH YN DDA;

### BETH ALL EI WELLA;

### SUT DWI'N TEIMLO AM BETH YR YDYM WEDI EI WNEUD;

### PA SGILIAU YDW'I WEDI EU DYSGU/ DATBLYGU;

### PA GAMAU YDW I EISIAU EU CYMRYD NESAF

Fel dysgwyr awyr agored, rydym yn gofyn yn garedig eich bod yn pwysleisio'r pwysigrwydd o bolisi 'peidio gadael ôl' i'ch dysgwyr pan yng nghanol natur. Mae'r hen ddihareb Saesneg 'Dos adref gyda dim ond atgofion, a gadael dim ond ôl dy droed' yn crynhoi ein ffordd o gysylltu gyda'n hardaloedd gwyllt.

Mae gwybodaeth bellach ar ddysgu awyr agored ar gael yn:

- Institute for Outdoor Learning
  **OUTDOOR-LEARNING.ORG**
- Cyngor Cymru ar Gyfer Dysgu yn yr Awyr Agored -
  **CYNGOR CYMRU AR GYFER DYSGU YN YR AWYR AGORED**
- English Outdoor Council -
  **ENGLISHOUTDOORCOUNCIL.ORG**
- Cyfoeth Naturiol Cymru
  **CYFOETH NATURIOL CYMRU / ADNODDAU I ADDYSGWYR (NATURALRESOURCES.WALES)**

# Adran 2: Gweithgareddau Addysgol

## TABL CRYNHOI

Mae'r tabl hwn yn rhoi trosolwg o'r holl weithgareddau sydd yn y pecyn adnoddau; mae mwy o wybodaeth ar y cardiau gweithgaredd ar gyfer gweithgareddau penodol.

Mae'r gweithgareddau wedi eu dylunio i roi nifer o opsiynau i wahaniaethiadau yn ogystal â chyfleoedd i wella.

Mae croeso i chi addasu neu ymestyn y gweithgareddau hyn ar gyfer anghenion eich dysgwyr. Hefyd, byddai'n eithaf syml i addasu'r gweithgareddau hyn ar gyfer dysgwyr o wahanol oedran; Bwriad y ddogfen hon yw bod yn ganllaw yn unig.

Ein nod yw ysbrydoli a chefnogi athrawon i ddefnyddio'r warchodfa natur fel dosbarth awyr agored; gofynnwch os ydych angen arweiniad pellach. I wneud y mwyaf o'ch diwrnod yn y warchodfa, efallai y byddwch yn dewis i gyfuno amrywiaeth o weithgareddau i lenwi diwrnod cyfan.

| GWEITHGAREDD | OEDRAN | AMSER SYDD EI ANGEN | MEYSYDD DYSGU A PHROFIAD |
|---|---|---|---|
| Drama Ddaearyddol | CA2 | 1-2 awr | • Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu<br>• Y Dyniaethau<br>• Y Celfyddydau Mynegiannol<br>• Iechyd a Lles<br>• Mathemateg a Rhifedd |
| Map Llun | CA2 | 1-2 awr | • Y Dyniaethau<br>• Y Celfyddydau Mynegiannol<br>• Iechyd a Lles |
| Cardiau Gwrthdaro | CA3 | 1-2 awr | • Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu<br>• Y Dyniaethau<br>• Iechyd a Lles |
| Bingo Rhewlifiant | CA4 | 1-2 awr | • Y Dyniaethau<br>• Iechyd a Lles |
| Stribyn comig Darwin | CA4 | 1-2 awr | • Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu<br>• Y Dyniaethau<br>• Iechyd a Lles<br>• Gwyddoniaeth a Thechnoleg |
| Cyfeiriannu Rhigolau | CA5 | 4 awr | • Y Dyniaethau<br>• Iechyd a Lles<br>• Gwyddoniaeth a Thechnoleg |
| Mapio Geomorffolegol | CA5 | 2-4 awr | • Y Dyniaethau<br>• Iechyd a Lles<br>• Gwyddoniaeth a Thechnoleg |